## Argyfwng coronafirws

# Cyngor yr undebau ar y cyd ar COVID-19 Cymru

Mawrth 2020

Argyfwng coronafirws

# Cyngor yr undebau ar y cyd ar COVID-19 Cymru

Yn ystod yr amser hwn o argyfwng mae arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cymorth yn gwneud gwaith hanfodol - gan ofalu am blant gweithwyr allweddol a phlant bregus yng Nghymru. Mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, wedi dweud ei bod yn hynod ddiolchgar am y gwaith rydych chi'n ei wneud wrth gamu i'r adwy. Mae eich undebau yn falch ohonoch chi hefyd ac eisiau gweithio gyda'n gilydd i'ch galluogi i reoli'ch bywydau proffesiynol a phersonol a chadw'ch hun a'ch myfyrwyr yn ddiogel yn ystod yr argyfwng hwn.

Mae argyfwng Covid-19 yn golygu bod arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cymorth yn gweithio mewn sefyllfaoedd newydd a ffyrdd newydd er mwyn bodloni'r heriau sy'n eu hwynebu bob dydd. Mae'r rhain yn amseroedd llawn straen a phryder. Mae addysgwyr eisiau gwneud y peth iawn - fel nad yw'r GIG yn cael ei lethu a bod gwasanaethau hanfodol eraill yn parhau i weithredu.

Bydd perthnasoedd proffesiynol da rhwng cydweithwyr yn ein galluogi ni i gyd i gyflawni'r heriau sy'n ein hwynebu. Mae trafodaeth yn hanfodol fel bod y penderfyniadau a wneir yn wybodus, wedi'u hesbonio'n dda ac yn gallu cael eu gweithredu. Bydd cadernid yn cael ei feithrin pan fydd yr holl gydweithwyr yn teimlo eu bod yn rhan o gynifer â phosibl o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau proffesiynol.

# Cadw ysgolion i redeg

Rydym yn cael cyfarfodydd mynych gyda Llywodraeth Cymru lle rydym yn codi materion sy'n peri pryder i'n haelodau p'un ai mewn ysgol, hwb neu'n gweithio gartref. Mae'r cyngor hwn yn cynnwys materion y cytunwyd arnynt trwy'r fforwm hwnnw.

Rydym yn falch bod mwyafrif helaeth yr ysgolion neu'r hybiau bellach yn gweithredu rotas ar gyfer gweithio yn yr ysgol.

Dylai penaethiaid weithio gyda'u timau i sicrhau bod lleiafswm o staff ar safle'r ysgol. Bydd hyn yn cefnogi'r GIG i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19.

Dim ond staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda myfyrwyr neu sy'n allweddol i agor, arlwyo a glanhau dylai fod ar safle'r ysgol.

Ni ddylid gofyn i athrawon fod ar y safle os nad ydyn nhw'n gofalu am ddisgyblion. Ni ddylid gofyn iddynt fynychu cyfarfodydd staff llawn, na glanhau cypyrddau, na thynnu arddangosfeydd i lawr er enghraifft oherwydd bod hyn yn cynyddu eu hamlygiad i'r firws ac yn peryglu'r GIG.

Rhaid trin pob athro cyflenwi yn deg – eu cadw yn y eu swydd, eu cefnogi os na allant weithio a'u cyflogi fel rhan allweddol o ymateb awdurdodau lleol i'r argyfwng hwn.

Rhaid i'r Llywodraeth ystyried sut y bydd ysgolion yn ymdopi o ystyried y costau ychwanegol y mae ysgolion yn eu hwynebu o ganlyniad i reoli'r argyfwng hwn. Fel undebau, byddwn mewn trafodaethau gyda'r Llywodraeth ynghylch sut y bydd hyn yn digwydd fel nad yw ysgolion yn cael eu cosbi.

Yn ystod agoriad y Pasg, dylid trefnu staff fel bod cydweithwyr yn gwybod pryd maen nhw'n gweithio (naill ai yn yr ysgol neu gartref) a phryd maen nhw ar wyliau. Ni ddylid disgwyl i staff ar wyliau gadw mewn cysylltiad - mae angen peth amser arnynt i ymlacio o'r gwaith a gwella yn gorfforol ac yn feddyliol.

Nid ydym yn disgwyl i ysgolion orfod agor ar ddydd Gwener y Groglith na dydd Llun y Pasg. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod pryder cynyddol am y pwysau ar y GIG dros y cyfnod hwn a gwyddom fod llawer o ysgolion bellach yn ystyried y ffordd orau y gallant chwarae eu rhan dros wyliau banc y Pasg.

Dylai pob ysgol a choleg ystyried yr angen i agor ar y dyddiau banc, gan gysylltu â'r rhieni sydd yn weithwyr allweddol i wirio'u hanghenion yn y lle cyntaf. Bydd llawer ohonynt a threfniant yn ei le eisoes ar gyfer y dyddiau hyn. Yn ddibynnol ar yr ymateb, gellid wedyn ymgysylltu â staff y sefydliad i weld a ydynt ar gael i weithio. Rydym yn disgwyl i'r niferoedd fydd yn manteisio ar y trefniant fod yn isel, ac felly rydym yn tybio bydd nifer sylweddol o ysgolion ar gau. Rhaid ystyried bod y staff hynny fydd yn gweithio yn gwneud hynny'n wirfoddol oherwydd yr amgylchiadau neilltuol hyn.

Byddem yn pwysleisio bod hwn yn fater i'w ystyried a'i gytuno'n lleol.

Dylai gwyliau staff gael eu gweithredu ar sail rota fel bod staff yn cael pythefnos i ffwrdd, naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl y cyfnod pan fyddai'r ysgol fel arfer ar gau ar gyfer y Pasg. Bydd cael wythnosau yn hytrach na diwrnodau i ffwrdd yn cynnig buddion sylweddol o ran amddiffyn iechyd staff trwy leihau

graddau'r cyswllt â gwahanol gydweithwyr. Ni ddylid cymryd yn ganiataol, fodd bynnag, y gall staff newid eu cynlluniau, hyd yn oed yn ystod y sefyllfa bresennol.

Rydym yn cydnabod y gallai defnyddio rotas gyflwyno rai heriau penodol mewn ysgolion arbennig lle mae angen cymarebau staff uwch, ond dylai arweinwyr barhau i geisio defnyddio dull cyffredinol tebyg o ddefnyddio rotas lle bo hynny'n bosibl.

Rydym hefyd yn cydnabod pryderon sydd gan aelodau ynghylch defnydd o hybiau. Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod cadw ysgolion unigol ar agor yn anghynaladwy ac rydym yn ymwybodol bod mwy o ALlau yn symud i'r model hwb. Rhaid ymgynghori â'r undebau ar bob cynnig o'r fath er mwyn gallu mynd i'r afael â materion allweddol. Ein barn ni yw y dylid gosod y nifer lleiaf posib o ddisgyblion fesul athro mewn ystafelloedd dosbarth unigol. Rhaid i dîm arweinyddiaeth yr hwb gynnwys arweinwyr o bob un o'r ysgolion yn nalgylch yr hybiau hynny a rhaid i gyfanswm nifer y myfyrwyr yn yr hwb ar unrhyw ddiwrnod penodol fod cyn lleied â phosib. Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o ystyried model cenedlaethol ar gyfer hybiau ac ymgynghorir â ni am hynny. Mewn trafodaethau gyda hwy rydym wedi pwysleisio'r angen i holl benderfyniadau o'r fath gael eu cefnogi gan gyngor meddygol ac argymhellion gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac maent wedi cytuno.

# Pa staff ddylai fod yn yr ysgol?

Gellir galw ar gydweithwyr sy'n iach ac nad ydyn nhw mewn grŵp bregus risg uchel i fod yn yr ysgol. Dylid ymgynghori â chydweithwyr ynglŷn â phryd y gallant weithio. Mae yna lawer o ystyriaethau, gan gynnwys darparu ar gyfer staff sydd bellach â chyfrifoldebau gofal plant yn ystod yr wythnos waith arferol. Dylai ysgolion geisio darparu ar gyfer yr anghenion hyn lle bynnag y bo modd, er ei bod yn bwysig cydnabod y gallai hyn beri rhai heriau i'r rhai sy'n cynllunio'r rotas a bydd angen elfen o hyblygrwydd yn gyffredinol.

Ni ddylid cynnwys cydweithwyr sydd â chyflyrau iechyd sy'n eu gwneud yn fregus i gael eu heffeithio'n wael os ydynt yn dal y firws ar rotas staff ar gyfer gweithio yn yr ysgol. Byddant yn gallu cefnogi mewn ffyrdd eraill y dylid eu trafod gyda nhw.

Ni ddylid cynnwys cydweithwyr sy'n byw gyda rhywun mewn grŵp iechyd bregus, fel y nodir yn y canllawiau ar warchod, ar rotas staff ar gyfer gweithio yn yr ysgol gan ei bod yn annhebygol iawn y gellir cadw at y pellter cymdeithasol llym gofynnol. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i leihau nifer y bobl a fyddai angen mynd i'r ysbyty pe baent yn dal y firws. Ni ddylai cydweithwyr, yn ychwanegol at eu holl bryderon eraill, ofni, oherwydd eu presenoldeb yn yr ysgol, y byddant yn heintio perthnasau bregus y maent yn byw gyda nhw.

# Cysylltiadau diwydiannol yn ystod yr amser hwn

Mae argyfwng yn ddieithriad yn dod â'r gorau o dimau ysgolion. Bydd y mwyafrif o dimau yn gallu cytuno ar rotas a ffyrdd o weithio trwy arferion gwaith a sgyrsiau arferol. Rydym yn clywed adroddiadau am gyfarfodydd tîm gwych lle mae cydweithwyr wedi cefnogi ei gilydd i gamu i'r adwy gyda hyder wrth gefnogi'r rhai na allant gymryd rhan. Ni all yr ymdrech hon ymwneud â gorchymyn a rheolaeth.

Bydd llwyddiant yn deillio o barch, dealltwriaeth a chefnogaeth ar y cyd y mae haelioni ysbryd yn sail iddynt.

Ni ddylid cyfaddawdu pa mor gyflym y mae angen inni symud ar hyn o bryd â ffurfioldeb. Ni ddylai ceisio perffeithrwydd ddod yn elyn i ddatrysiad da. Fodd bynnag, wrth i ni setlo ar gyfer y tymor hwy, bydd angen i ni ddod i arfer â'r drefn newydd ac mae'n bwysig bod gan dimau hyder yn eu sefyllfa, a rhywfaint o berchnogaeth ohoni.

Rhaid i gynnwys ac ymgynghori â chydweithwyr dros y tymor hwy gynnwys ymgynghori â'u cynrychiolwyr undebau llafur fel y byddech chi fel arfer. Dylai arweinwyr ysgolion, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ymgynghori â chynrychiolwyr undeb cyn cyhoeddi protocolau ac ystyried sylwadau gan staff yn gyffredinol wrth adolygu'r protocolau hynny. Bydd arweinwyr ysgolion eisoes yn ymgynghori â'r cyngor a ddarperir ar eu cyfer gan eu sefydliad eu hunain. Dylent hefyd ystyried y cyngor a gyhoeddir gan undebau llafur eraill trwy eu gwefannau.

Yn ystod y cyfnod hwn, nid yw'n bosibl bwrw ymlaen â materion fel ad-drefnu, ailstrwythuro neu ddiswyddo sy'n gofyn am ymgynghori ystyrlon er mwyn bodloni gofynion y gyfraith, neu symud ymlaen ar faterion disgyblu, medrusrwydd neu achwyniad sy'n gofyn am wrandawiadau a chynrychiolaeth. Yn yr achosion disgyblu mwyaf difrifol, efallai y bydd angen gwaharddiad dros dro, ar dâl llawn, i hwyluso hyn.

# Addysg yn ystod argyfwng COVID

Nid addysg fel yr ydym yn gyfarwydd ag ef ydyw mwyach. Mae Profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, TGAU, arholiadau UG a Safon Uwch, ynghyd ag arolygiadau Estyn i gyd wedi'u canslo. Yn ychwanegol, cadarnhaodd Kirsty Williams nad oes disgwyliad i athrawon baratoi cynlluniau gwersi a chwricwlwm newydd p'un a ydynt yn yr ysgol neu gartref.

Mae gan blant a phobl ifanc fywydau cartref gwahanol iawn a lefelau gwahanol iawn o gefnogaeth gan rieni. Nid yw'n ymarferol parhau fel o'r blaen yn ystod yr argyfwng hwn. Ni allwn addysgu plant y genedl o gartref.

Ni fydd plant yn yr ysgol yn dilyn amserlen arferol - gyda gwersi a gwaith cartref. Bydd y prif ffocws, yn y tymor byr yn sicr, ar sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth. Yn y tymor ychydig yn hwy, efallai y bydd gan athrawon neu addysgwyr fwy o gapasiti i feddwl am y cyfleoedd dysgu y gallant eu darparu i blant yn yr ysgol, gan gydnabod bod hyn yn debygol o barhau i edrych yn wahanol iawn i amserlen diwrnod cyfan o wersi strwythuredig.

Er y bydd y ffocws uniongyrchol ar ofalu am y disgyblion hynny yn yr ysgol a'u cefnogi, mae arweinwyr ac athrawon hefyd yn dechrau rhoi prosesau ac adnoddau ar waith i gefnogi dysgu plant gartref. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl ailadrodd profiad ysgol arferol gartref. Nid yw'n rhesymol, nac yn ymarferol i ysgolion barhau i ddarparu addysg ysgol 'normal' yn ystod yr amser hwn. Nid oes gan lawer o ysgolion yr adnoddau i wneud hyn a gwyddom fod gan blant a phobl ifanc amgylchiadau cartref gwahanol iawn. Bydd gan rai fynediad da i'r rhyngrwyd. Ni fydd gan eraill.

Wrth i ysgolion ddechrau meddwl sut y gallent fod eisiau cefnogi'r disgyblion hynny gartref, mae angen iddynt gofio am yr amgylchiadau gwahanol iawn hyn, yn enwedig mynediad disgyblion at dechnoleg a allai fod wedi newid gan fod teuluoedd cyfan yn gweithio gartref. Efallai y bydd plant nad ydynt yn gallu cwblhau gwaith ar-lein ac yn y sefyllfaoedd hyn dylai ysgolion osod gweithgareddau dysgu amgen neu gyflenwol nad oes angen technoleg arnynt.

Mae'n bwysig cofio, o ran disgyblion iau, efallai y bydd ysgolion hefyd eisiau rhoi syniadau i rieni ar gyfer gweithgareddau rhyngweithiol, gemau a 'heriau'.

Dim ond llwyth gwaith rhesymol y gall athrawon sy'n gweithio gartref ei gyflawni, a rhaid i hyn gael ei drafod gyda'r staff. Dylai ysgolion hefyd archwilio cyfleoedd i athrawon gydweithio o ran cynllunio gweithgareddau dysgu gartref.

Rhaid i ysgolion gofio y bydd gan eu staff ofynion a phwysau eu hunain, fel gofal plant, ac felly efallai na fydd yn bosibl iddynt weithio diwrnod ysgol 'arferol'.

Rhaid i ysgolion gofio hefyd na ellir disgwyl i'r staff hynny sydd yn yr ysgol fod yn cefnogi dysgu gartref ar yr un pryd.

Ni ddylai ysgolion fod yn monitro 'perfformiad' staff yn ffurfiol yn ystod y cyfnod hwn.

Ni ddylid gofyn i athrawon gysylltu'n bersonol â myfyrwyr unigol yn ddyddiol, ac eithrio pan fyddant wedi cytuno â'u pennaeth â system i gysylltu â phlant a theuluoedd bregus. Ni ddylai athrawon ddefnyddio ffonau neu e-byst personol ar gyfer y cyswllt hwn. Mae'n hynod bwysig bod pob ysgol yn atgoffa eu staff a'u disgyblion o'u polisïau ar gyfer defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn adolygu a oes angen gwneud unrhyw newidiadau penodol i'r polisi i ystyried yr amgylchiadau newydd.

Dylai ysgolion hefyd ystyried amlinellu datganiad clir ar gyfer rhieni sy'n rhoi manylion ymagwedd yr ysgol tuag at ddysgu yn y cartref a phrotocolau ar gyfer cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref.

Hyd nes y byddwn yn gwybod pa drefniadau a wneir gan Gymwysterau Cymru, mewn ymgynghoriad â CBAC a rheoleiddwyr eraill y DU, ynghylch dyfarnu graddau ar gyfer arholiadau cyhoeddus, ni ddylai athrawon fod yn gosod gwaith cysylltiedig ag arholiadau ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 11 a 13, gan raddio a marcio, coladu 'portffolios', a/neu wneud graddau a ragwelir.

# Cau ysgolion

Mae'n bwysig ailadrodd y bydd angen i arweinwyr ysgol wneud penderfyniadau unigol o hyd ynghylch a yw'n ddiogel agor eu hysgol neu eu hwb.

Mae'n dal yn wir, os nad oes gan ysgol neu hwb ddigon o staff i ofalu am ddisgyblion yn ddiogel yna, yn amodol ar asesiad risg ac ymgynghori â chadeirydd y llywodraethwyr, efallai y bydd angen cau'n llawn neu'n rhannol. Bydd angen i ysgolion neu hybiau gadw'r penderfyniad hwn dan adolygiad dyddiol a dylent hysbysu eu hawdurdod lleol os na allant agor.

## Diogelu a chefnogi disgyblion bregus nad ydynt yn yr ysgol

Ein disgwyliad yw y bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau manwl i ysgolion ar drefniadau diogelu a bydd hwn ar gael yn fuan.

Mae'n bwysig peidio â drysu rôl ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.

Ein disgwyliad yw y bydd ysgolion yn parhau i fod â'r cyfrifoldebau diogelu arferol ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys atgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol yn y ffordd arferol os oes angen.

Ar gyfer disgyblion nad ydynt yn yr ysgol, os oes gan ysgolion bryderon diogelu, dylid rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol yn y ffordd arferol. Fodd bynnag, nid ydym yn credu mai rôl staff ysgol yw cynnal ymweliadau cartref. Os oes angen, mae hyn yn rhywbeth i'r awdurdod lleol a'r tîm Gwasanaethau Plant ei ystyried.

Efallai y bydd ysgolion eisiau cynhyrchu atodiad byr i'w polisïau diogelu yn manylu ar unrhyw newidiadau y maent wedi'u rhoi ar waith yn ystod y cyfnod hwn.

## Athrawon ac arweinwyr yn dod â'u plant eu hunain i'r ysgol

Rydym yn ceisio eglurder ar hyn gan Lywodraeth Cymru ond ein dealltwriaeth yw bod llawer o ysgolion ac ALlau wedi cytuno i hyn. Os ydych chi'n ansicr, dylech ofyn am gyngor gan eich awdurdod lleol.

## Rheoli perfformiad

O ystyried bod ysgolion bellach wedi'u 'cau' yn swyddogol a'u bod ar agor i nifer fach o ddisgyblion yn unig, dylid oedi rheoli perfformiad a medrusrwydd nes bod ysgolion yn ailagor yn ffurfiol.

## Oriau agor

Gellir dod o hyd i gyngor ar oriau agor ysgolion ar wefan Llywodraeth Cymru.

# Parhad i gau ysgolion...

## Beth fydd yn digwydd os nad oes gan yr ysgol arweinydd diogelu na swyddog cymorth cyntaf dynodedig?

Mae canllawiau'r llywodraeth a gyhoeddwyd ar 22 Mawrth yn nodi: "Lle mae gan ysgolion ac ymddiriedolaethau bryderon ynghylch effaith absenoldeb staff - fel eu Harweinydd Diogelu Dynodedig neu swyddogion cymorth cyntaf - dylent drafod ar unwaith gyda'r awdurdod lleol neu ymddiriedolaeth." Rydym yn cefnogi'r ymdriniaeth hon.

## Rôl awdurdodau lleol ac ysgolion

Mae mwyafrif helaeth yr ysgolion eisoes wedi rhoi cynlluniau ar waith sy'n gweithio'n dda iddyn nhw a'u cymunedau. Lle mae hyn yn wir nid ydym yn disgwyl i awdurdodau lleol ddiystyru'r penderfyniadau hyn. O ystyried y lefel uchel o aflonyddwch a phryder, yn gyffredinol bydd y disgyblion hynny sy'n mynychu'r cynnig darpariaeth gostyngedig hwn yn well eu byd yn eu hysgolion eu hunain gyda'r staff y maent eisoes yn eu hadnabod yn dda. Fodd bynnag, dylai ysgolion barhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol a thrafod unrhyw gynlluniau tymor hir sy'n cael eu datblygu.

Dylent hefyd weithio gydag awdurdodau lleol lle mae risg na fyddant o bosibl yn gallu cynnal y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig.